nmc
Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

# Ein gwybodaeth ddiweddaraf am nyrsio a bydwreigiaeth yn y DU

Ebrill hyd Fedi 2023



Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

Ni yw’r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC).



Rydym yn cadw’r rhestr o bob nyrs a bydwraig sy’n medru gweithio yn y DU.



Rydym hefyd yn cadw’r rhestr o bob cydymaith nyrsio sy’n cael gweithio yn Lloegr.



Mae nyrsys yn cynorthwyo pobl sy’n wael, gydag anafiadau neu sydd ag angen gofal.



Mae bydwragedd yn cynorthwyo genedigaeth babanod.



Staff iechyd sy’n gweithio mewn timau nyrsio yn Lloegr yw cymdeithion nyrsio.




Gelwir y rhestr hon yn gofrestr.




Bob 6 mis byddwn yn bwrw golwg dros y wybodaeth ar ein cofrestr ac yn ysgrifennu papur amdani.

## Rhwng Ebrill 2023 a Medi 2023:




Tyfodd nifer y nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio ar ein cofrestr ychydig dros 19,800.




Mae cyfanswm o ychydig dros 808,000 o bobl ar ein cofrestr.



Nyrsys yw ychydig dros 748,500. Mae bron 43,000 yn fydrwagedd. Mae ychydig dros 10,500 yn gymdeithion nyrsio ac mae ychydig dros 6,400 yn nyrsys ac yn fydwragedd.




Mae bron 215,800 o bobl wedi bod ar ein cofrestr am 5 mlynedd neu lai.




Mae dros 125,000 o bobl wedi bod ar ein cofrestr rhwng 5 a 10 mlynedd.




Mae bron 327,800 o bobl wedi bod ar ein cofrestr rhwng 10 a 30 o flynyddoedd.




Mae bron 140,000 o bobl wedi bod ar ein cofrestr ers dros 30 o flynyddoedd.



Cododd nifer y bobl sy’n dod o’r DU ychydig dros 11,600. Mae yn awr dros 630,800 o nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio o’r DU.



Gostyngodd nifer y bobl ar ein cofrestr a ddaethant o Ewrob dros 600.



Mae yn awr bron 28,000 o bobl o Ewrob.




Cododd nifer y bobl ar ein cofrestr a ddaethant o du allan i Ewrob i bron 150,000.  Mae hynny’n gynnydd o ychydig dros 26,000 o bobl.



O’r bobl hynny, daeth ychydig dros 47,000 o ynysoedd y Philippines ac ychydig dros 55,000 o India.



Gostyngodd nifer nyrsys anhawster dysgu unwaith eto o 34.



Cododd nifer nyrsys iechyd meddwl ychydig dros 2000.



Dywedodd bron 550,000 ar ein cofrestr eu bod yn bobl wynion.



Dywedodd dros 125,000 mai Asiaid oeddynt.



Dywedodd ychydig dros 93,000 mai pobl dduon oeddynt.



Dywedodd ychydig dros 7,000 eu bod o dras gymysg.



Dynion yw ychydig dros 89,000 o’r nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio ar ein cofrestr.



Merched yw ychydig dros 719,000.



Nid oedd 28 yn fodlon dweud.



Dywedodd ychydig dros 7,000 nad yw eu rhyw yr un ag yr oedd ar eu genedigaeth.

# Cofrestr dros dro Covid-19




Gwnaethom gychwyn cofrestr newydd i’n cynyrthwyo yn ystod Covid-19. Mae hon ar wahân i’n prif gofrestr.



Gwnaethom ofyn i nyrsys a bydwragedd a oedd wedi gadael ein prif gofrestr yn ystod y 5 mlynedd ddiwethaf i ymuno.



Gwnaethom ofyn hefyd i rai bobl o dramor i ymuno.




Mae’r rhifau hyn o 30 Medi 2023.



Mae ychydig dros 1,400 o bobl ar y cyfrestr Covid-19:

Mae ychydig dros 1,300 yn nyrsys.



Mae ychydig dros 100 yn fydwragedd.



Ac mae 23 yn nyrs ac yn fydwraig.



Merched yw bron 1,300.



Dynion yw ychydig dros 120.



Mae bron 1,380 o'r DU. Mae bron 8 allan o 10 yn dod o Loegr.



Mae 14 yn dod o Ewrob.



Mae19 yn dod o'r tu allan i Ewrob

# Cydnabyddiaeth

Cynlluniwyd a chynhyrchwyd y papur hwn gan wasanaeth EasyRead yn Inspired Services Publishing Ltd.
Cyf ISL198 23. Tachwedd 2023.

**www.inspiredservices.org.uk**

**Speaking Up Together** -
yn creu gwybodaeth EasyRead.

Y mae ffotograffau dewisedig yn dod o gasgliad Inspired.pics EasyRead ac ni cheir eu defnyddio yn unman arall heb ganiatâd ysgrifenedig gan Inspired Services Publishing Ltd.

**www.inspired.pics**

nmc
Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

**Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC) Rheolydd nyrsio a bydwreigiaeth dros Loegr, Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Elusen gofrestredig yn Lloegr a Chymru (1091434) ac yn yr Alban (SC038362)**

**23 Portland Place, London W1B 1PZ**
**T 020 7637 7181**
**www.nmc.org.uk**